Angela yn saernïo gyrfa newydd mewn gwaith coed

Mae mam sengl i ddau wedi dangos y gall menywod fynd ar y blaen mewn swyddi fu yn draddodiadol yn rhai dynion trwy hyfforddi i fod yn saer.

Ymunodd Angela ar gwrs oedd yn cael ei redeg gan y cwmni hyfforddi o Borth Talbot, Unit 19 a phrosiect Ready SET Go Chwarae Teg, sydd wedi ei anelu at helpu menywod i gael hyfforddiant a gyrfaoedd mewn sectorau heb fod yn rhai traddodiadol.

Canmolwyd Ready SET Go am amlygu'r hyn mae'r DU yn ei wneud i greu cymdeithas fwy cyfartal a theg ym Mlwyddyn Ewropeaidd Cyfle Cyfartal i Bawb.

Mae Angela yn byw yn Abertawe gyda'i dwy ferch, un ohonynt yn anabl.
"Peidiwch byth â thanamcangyfrif faint y gall plant newid eich bywyd!" mae'n rhybuddio.

Nawr bod ei dwy ferch yn yr ysgol, roedd Angela yn awyddus i greu gyrfa newydd fyddai'n defnyddio ei sgiliau creadigol ond a fyddai'n ddigon hyblyg i ganiatáu iddi fynd â'i merch i'r ysbyty pan fyddai'r galw.

Wedi gweld hysbyseb bychan yn y papur lleol, penderfynodd fynd ar gwrs un diwrnod yr wythnos, sef cwrs gwaith saer Unit 19/Ready SET Go.

"Roedd y cwrs yn gampus", meddai. "Roedd y tiwtoriaid yn gymwynasgar, yn fy nghyfarwyddo ac yn cefnogi unrhyw syniadau yr oeddem ni am eu datblygu. Cawsom weld sut i ddefnyddio'r peiriannau yn ddiogel ac yna cael bwrw iddi. Fe wnes i ddysgu cymaint."

"Fuaswn i byth wedi ymuno ar gwrs City & Guilds mewn Crefft a Dylunio Dodrefn cyn mynd ar y cwrs Ready SET Go, doeddwn i ddim yn ddigon dewr.

Mae'r prosiect wedi ei ran-ariannu gan:

Doeddwn i ddim eisiau gwneud ffwl ohonof fy hun o flaen dosbarth llawn dynion."

"Cafodd y bwrdd a wnes yn Unit 19 ei ysbrydoli gan un welais i yn costio dros £700; dim ond am yr handlenni y talais i. Toriad sbâr oedd y pren, ond allai'r dyn ddim credu i beth oeddwn i ei eisiau, felly fe'i rhoddodd am ddim i mi!"

Cwblhaodd Angela ei chwrs mewn crefft a dylunio dodrefn, ac y mae bellach wedi cychwyn ar gwrs City & Guilds mewn gwaith coed.

Ysbrydolwyd ei phrosiect nesaf gan daith i Lapland i weld Siôn Corn.

Mae'r prosiect wedi ei ran-ariannu gan:

"Roedd ganddo fainc hynafol hyfryd, ac yr oeddwn i wrth fy modd â hi; fe wyddwn y buasai'n berffaith gartref, felly fe wnes ddarlun sydyn tra'r oeddwn i yno, ac rwy'n gobeithio ei gwneud yn fuan".

Mae Ready SET Go yn cefnogi menywod i gael hyfforddiant a gyrfaoedd mewn amrywiaeth o sectorau heb fod yn rhai traddodiadol, gan gynnwys adfer adeiladau, cadwraeth ymarferol, electroneg sylfaenol, gosodiadau digidol, ac ymladd tân. Cyllidwyd y prosiect yn rhannol gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop, Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r prosiect wedi ei ran-ariannu gan: